**Atodiad: A**

**Gwaredu sgil-gynhyrchion (sglodion coed a/neu bren) o goed â Gwywiad Coed Ynn sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion a choed preifat posib y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi'u cwympo.**

**Dewis 1. Gwerthu sgil-gynhyrchion i'r contractiwr cwympo coed sy'n gwneud y gwaith**

Y contractiwr yn credydu'r cyngor â gwerth y sglodion coed neu bren, neu'r ddau, ar sail £/m$^3$, yn sgil y gwaith o gwympo neu docio coed â Gwywiad Coed Ynn ar ran Ceredigion.

Mae'r gwerth hwn yn ddibynnol ar naill ai:

1. Amcangyfrif a wnaed gan y swyddog Gwywiad Coed Ynn o faint o sglodion coed a/neu bren a gafwyd yn sgil y gwaith

   neu

2. Gonestrwydd y contractiwr wrth fesur/amcangyfrif faint mewn m$^3$.

Nodyn: Wrth i'r rhaglen waith ddod yn rhywbeth rheolaidd dros gyfnod y fframwaith, dylai'r swyddog Gwywiad Coed Ynn ennill elfen o hyfedredd wrth ragweld faint sy'n deillio o ddarnau gwaith gwahanol.

**Dewis 2. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion gan ddefnyddio'r contractiwr cwympo coed**

Ceredigion yn talu £/Tunnell y filltir i'r contractiwr cwympo coed i gludo sglodion coed neu bren, neu'r ddau, i waith biomas neu brynwr/cyfanwerthwr a all wirio faint a dderbyniodd drwy gyfrwng tocynnau. Mae hyn yn dileu unrhyw broblemau'n ymwneud â mesur neu fwrw amcan ar faint o sgil-gynhyrchion a gafwyd.

Byddai angen i'r Cyngor wahodd tendrau gan weithredwyr biomas neu brynwyr/cyfanwerthwyr ar gyfer y sgil-gynhyrchion.

**Dewis 3A. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion**

Y Cyngor i dalu cyfradd o £/m$^3$/milltir i'r contractiwr i gludo'r sglodion coed a/neu bren i gyfleuster storio'r Cyngor (nid oes cyfleuster wedi'i nodi eto).

Yna, bydd y Cyngor yn gwahodd tendrau gan brynwyr sglodion coed a phren ar raddfa ddiwydiannol i brynu'r sgil-gynhyrchion sydd wedi'u storio.

Nodyn: yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda'r diwydiant, mae mwy nag un prynwr sglodion coed a phren ar raddfa ddiwydiannol fawr eisoes wedi dangos diddordeb mewn prynu sglodion coed a/neu bren. Byddai gan y cwmnïau hyn yr adnoddau eisoes i gludo a llwytho logiau eu hunain o gyfleuster storio'r Cyngor. Fodd bynnag,

mae'n bosibl y byddai angen i'r Cyngor fuddsoddi yn yr adnoddau a'r peiriannau angenrheidiol i lwytho'r sglodion coed ar gyfer cludo llwythi mawr. Byddai'n rhaid cadw at brotocolau caffael.

**Dewis 3B. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion**

Er mwyn cynorthwyo i gyflenwi tanwydd coed domestig, wedi'i olrhain yn lleol, yng Ngheredigion gallem sefydlu fframwaith tendro ar gyfer cyflenwyr coed tân domestig llai i brynu pren fesul $m^3$. Eto, mae'n annhebygol y byddai gan y busnesau llai hyn y gallu i lwytho eu hunain ac mae'n bosib y byddai'n ofynnol i'r cyngor fuddsoddi yn yr adnoddau a'r peiriannau angenrheidiol i lwytho. Byddai'r dewis hwn yn golygu mwy o adnoddau i'r cyngor na Dewis 3A. Fodd bynnag, hwn yw'r dewis sydd â'r nodweddion amgylcheddol/carbon niwtral mwyaf cadarnhaol, gan ei fod yn annog seilwaith tanwydd cynaliadwy yng Ngheredigion.

**Y dewis a ffefrir**

Mae'n anodd mesur, ar y cam hwn, pa un o'r dewisiadau sy'n rhoi'r gwerth gorau. Bydd Dewis 3A a 3B yn gofyn am fwy o reolaeth ac adnoddau i gyflenwi ac, os nad oes modd cyflawni hyn, yna mae'n ymddangos mai Dewis 1 neu 2 fyddai'r mwyaf priodol.

Mae'n bosib mai dull o ymdrin â sgil-gynhyrchion sy'n cyfuno'r dewisiadau hyn fyddai fwyaf effeithlon h.y. - os ymdrinnir â phren yn ôl Dewis 3B, yna efallai y byddai'n well ymdrin â sglodion coed yn ôl Dewis 1 neu 2.

Felly, mae'r fframwaith/tendr contractiwr wedi'i lunio yn y fath fodd fel y gellid newid y dewisiadau ynghylch a yw'r contractiwr yn cadw neu'n cludo'r sgil-gynhyrchion fel eu bod yn diwallu ein anghenion yn ôl pob rhaglen waith.

**Pwyntiau eraill i'w hystyried**

Nid yw gweithfeydd biomas Ceredigion ei hun ym Mhenmorfa a Phlascrug yn defnyddio sglodion coed heb eu graddio a/neu eu sychu. Efallai na fyddai cadw'r sglodion coed o fewn y Cyngor, i'w defnyddio gan Geredigion ar gyfer gwresogi, yn hyfyw oni bai y ceid mwy o fuddsoddi er mwyn i'r sgil-gynhyrchion gael eu graddio a'u sychu.

Mewn unrhyw achos, yn dilyn hysbysiad Adran 154, lle bo'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith yn niffyg y tirfeddiannwr, mae cyngor cyfreithiol cyfredol yn nodi:

*Dylai'r sgil-gynhyrchion o'r gwaith dan sylw (oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r tirfeddiannwr) gael eu trin fel eiddo'r tirfeddiannwr drwy gydol y broses, ac ar ei hôl,* sy'n golygu na ellir dibynnu ar y sgil-gynhyrchion hyn ym mhob achos.

.